Academi Gerdd De Cymru

Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid,

Mae Academi Gerdd De Cymru yn falch iawn o allu darparu gwersi offerynnol yn Ysgol Gymraeg Bryn y Môr o fis Medi 2021. Rydym yn cynnig gwersi ar yr offerynnau isod:

Telyn Feiolin Fiola Cello Ffliwt Clarinet

Piano/Allweddell Gitâr Trwmped Trombôn Recorder Llais

**TREFN Y GWERSI**

Ceir gwersi bob wythnos ar yr un dydd. Pan nad oes modd cynnal gwers oherwydd teithiau ysgol neu HMS bydd ein staff yn ymdrechu i aildrefnu'r wers, boed yn yr un wythnos neu ar ddiwedd y tymor. Ni fydd galw ar athrawon i aildrefnu gwersi oherwydd absenoldeb disgybl. Nid oes angen offeryn er mwyn dechrau gwersi, yn enwedig telyn, piano ac allweddell, mae modd ymarfer yn yr ysgol, gyda chaniatâd staff yr ysgol. Mae modd cael gwersi ar fwy nag un offeryn.

Byddwn yn datblygu sgiliau technegol a cherddorol y disgyblion gan gynnwys gwaith theori cerddoriaeth yn ein gwersi. 'Rydym yn awyddus i ddisgyblion baratoi at arholiadau ABRSM/Trinity/Rock School ond nid yw'n orfodol. Cynigwn gyfleoedd perfformio mor aml â phosibl, yn ogystal â chyfleoedd cystadlu, er enghraifft, yn Eisteddfod yr Urdd a'r AFYM.

**COST Y GWERSI**

Cost y gwersi yw £60 y tymor, yn daladwy i gyfrif Academi Gerdd De Cymru neu gydag arian parod trwy law staff AGDC **gan nodi enw'r disgybl fel cofnod**. Yn anffodus, nid ydym yn gallu derbyn sieciau. **Dylid talu am wersi erbyn diwedd ail wythnos pob tymor newydd** os gwelwch yn dda. Os nad ydym yn derbyn taliad ni fyddwn yn gallu parhau gyda gwersi'r disgybl nes ein bod yn derbyn y taliad llawn. Ni fydd gostyngiad yn y pris nac ad-daliad ar gyfer gwersi a gollwyd oherwydd talu'n hwyr. Ceir gostyngiad ar gostau gwersi i frodyr a chwiorydd. Mae modd talu am wersi am y flwyddyn hefyd. Mawr gobeithiwn y bydd y disgyblion yn mwynhau ein gwersi ond os yw disgybl am roi'r gorau i'r gwersi ar ddiwedd unrhyw dymor gofynnwn yn garedig i chi ddanfon llythyr neu ebost atom yn nodi'r rhesymau.

Os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn derbyn gwersi a fyddai modd i chi gwblhau'r ffurflen gofrestru isod a'i dychwelyd i ni trwy ebost: admin@southwalesmusicacademy.org neu drwy law yr athro dosbarth neu swyddfa'r ysgol. Edrychwn ymlaen at eich gweld ym mis Medi.

Diolch am bob cefnogaeth.

Siân Wynn a Thîm Rheoli AGDC

✂------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

**GWERSI OFFERYNNOL- YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR – FFURFLEN GOFRESTRU**

ENW'R DISGYBL:________________________________________________

DOSBARTH:________________________ OFFERYN(NAU):________________________________

ENW'R RHIANT/GWARCHEIDWAD:________________________________________

RHIF CYSWLLT:__________________________________________________

EBOST:________________________________________________________

Academi Gerdd De Cymru

Dear Parent/Guardian,

South Wales Music Academy is delighted to be able to provide instrumental tuition in Ysgol Gymraeg Bryn y Môr from September 2021. We offer tuition on the following instruments:

Harp Violin Viola Cello Flute Clarinet Voice

Piano/Keyboard Guitar Trumpet Trombone Recorder

**LESSON ARRANGEMENTS**

Lessons are on the same day and weekly. Wherever possible, lessons missed due to school trips or INSET days will be rearranged, either in the same week or at some point before the end of the term. Lessons missed due to child absence do not need to be made up. You do not need to own an instrument before starting lessons, it may be possible to practise in school (harp, piano/keyboard). It is possible to have lessons on more than one instrument.

We make every effort to ensure pupils' musical and technical skills are developed when learning to play their instrument and we also develop aural awareness as well as music theory skills. We encourage pupils to work towards ABRSM/Trinity/Rock School examinations, should they so wish, and we offer pupils as many performance opportunities as possible, as well as competing in the Urdd National Eisteddfod and the local AFYM, for example.

**COST OF LESSONS**

Lessons cost £60 per term, paid directly to South Wales Music Academy account, or with cash via instrumental teacher, with **pupil's name noted as reference**. Unfortunately, we are unable to accept cheques**. Payment should be made by no later than the end of the second week of each new term**. If payment is not received by this time, lessons will be stopped until full payment is made. No refunds nor reductions in costs will be offered for any lessons missed due to late payment. We offer a discount for siblings. Payment can also be made for lessons for the year. We hope pupils will enjoy our lessons and once they begin it is best for all pupils to continue with their lessons for the whole term at least. Should any pupil decide to finish lessons at the end of a term we kindly ask you to send us an email or a letter of explanation.

If your child is interested in registering for lessons, please complete the slip below and email it to us at admin@southwalesmusicacademy.org or return it to the class teacher or school office. We look forward to seeing you in September.

Thank you for your support.

Sian Wynn and the SWMA Management Team

✂------------------------------------------------------------------------------------------------

**INSTRUMENTAL LESSONS - YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR –REGISTRATION FORM**

PUPIL NAME:______________________________________________

CLASS:________________ INSTRUMENT(S):____________________________

NAME OF PARENT/GUARDIAN:_________________________________

CONTACT NUMBER:__________________________________________

EMAIL:____________________________________________________